# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Hydref 2022 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h**

1. **Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng J Pierce, Cyng B Jones, Cyng E Jones, Cyng M Baines, Cyng C W Owen; Cyng I Ellis, Cyng D Jones-Morris; Cyng D W Jones, Cyng A Joyce a'r Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau** Cyng L A James; Cyng J Lewis; Cyng Dafydd Meurig

   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a hefyd datganwyd cydymdeildau'r Cyngor a'r Clerc

3. Datgan buddiant Esbonwyd y drefn i ddatgan buddiant sydd belllach yn haws wrth ein bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb a ffurflenni ar gael gan y Clerc

4. Derbyn Cofnodion 14eg o Orffennaf gan na fu cyfarfod yn ol yr arfer yn ystod Awst a gohirwyd Cyngor Medi yn sgil marwolaeth y Frenhines Elizabeth11
   Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng D W Jones ag eilwyd gan y Cyng D Jones Morris

5. Materion yn codi
   Trafodwyd yr angen i gynnal cyfarfod rhwng y Cyngor a Phwyllgor Rheoli y ganolfan bresennol i drafod Rheolaethu y ganolfan newydd gan fod y dyddiad y bydd yn cael eu throsglwyddo i' ni yn agosau a dim yn ei le **Cytunwyd i gynnwys fel rhan o'r agenda misol**

6. Materion ariannol
   Yn ogystal a chofnodion 2 Is-Bwyllgor Cyllid 'roedd mantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos gwariant a derbyniadau dros yr haf. Yn dilyn derbyn ail ran y Praesept mae bellach £48,842.42 yn y cyfrif cyfredol a £45,046.39 yn y Cyfrif Cadw
   Trafodwyd yr angen i geisio gwthio prosiectau sydd eisioes wedi eu adnabod ond dal heb eu cyflawnni fel Canolfannau Ffordd Penrhos, Datblygu'r Capel bach, Cae Chwarae Caerhun a rhannwyd gwybodaeth am gynllun Diffibs fyddai yn ychwanegi at ein rhwydwaith ni o beiriannau
   Cytunwyd i sefydlu Is-Grwpiau fyddai'n adnabod be yn union sydd angen ei wneud ag yn lle.
   Gofynwyd os byddai aelodau Pentir yn edrych ar adnewyddu'r Capel i flaenorieuthu be ellir ei brisio a'i wneud rhwng rwan a diwedd y flwyddyn ariannol
   Y Clerc i edrych ar brisiau y Cae Chwarae yn Caerhun
   Y Clerc hefyd i holi Cyngor Gwynedd ynglyn a bwriad Adnewyddu Cysgodfannau bysus ar hyd Ffordd Penrhos gan ei bod yn amlwg bellach fod cysgodfannau y ddwy ochr i'n ardal ni eisioes wedi derbyn cysgodfannau newydd ar daith y bwsT2

7. Cynllunio Cais C22/0800/25/LL Tafarn y Faenol Mynegwyd fod pryder mawr ynglyn a'r cais yma gan drigolion lleol oherwydd fod yna ddigonedd o unedau gwyliau yn yr ardal ond prinder llefydd drigolion gymdeithasu sef beth sydd wedi bod yn Pentir ers degawdau lawer
   Cais C22/0849/25/LL Nid oedd neb yn ymwybodol o leoliad Rhos Bach onibai wrth edrych ar y map ei fod tu cefn i Rhos Fawr lle byddai tipio tir-lenwi yn digwydd ag os yw yn ddaliad amaethyddol Serch hynny ni datgelwyd gwrthwynebiad
   Ceisiadau C22/0841/25/DT a C22/0842/25/TC oedd am yr un lleoliad 28 Caerhun Dim Gwrthwynebiad

8. Materion y Clerc   Adroddwyd fod angen bellach ychwanegu gwybodaeth am ein Cynghorwyr diweddaraf sydd wedi cychwyn ers yr etholiad yn Mis Mai a gofynwyd iddynt anfon llun ag ychwydig o wybodaeth am eu hunain i'r Clerc fel y gall wedyn ddiweddaru tuadlennau'r wefan ac ychwanegu rhywfaint ar y newyddion

9. Materion Cynghorwyr

Cyng M Baines

- Plot tir Maes y Ffynnon a werthwyd yn ddiweddar – amodau'n ymwneud â bioamrywiaeth. 'Roedd wedi derbyn cadarnhad fod coed wedi eu gwarchod ar un lleoliad ag y byddai rheolaeth ar dorri coed ar plot gornel hefyd
- Cais llwybr Treborth – diweddariad. Y broses o gychwyn cyfweld tystion wedi cychwyn ag o bosib bydd angen ymgynghori hefo'r perchennog. O bosib mi fydd yn 2023 cyn bydd cyswllt pellach

Cyng C W Owen

- Yn dilyn symud y blwch postio oedd wrth y siop – arferai fod yn swyddfa bost – mae pryder y bydd 6 mis cyn y bydd y gwasathau post yn gosod blwch post newydd yn yr ardal

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25